# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap-samplu

## Achosion Troseddau â Chyllyll

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar achosion Oedolion

**Mawrth 2025**

# Cynnwys

# Cynnwys

1.0 Trosolwg ... 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg ... 2
3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel ... 3
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ... 3
5.0 Meysydd i'w gwella ... 3
6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion ... 4
7.0 Asesiadau'r panel hyd yma ... 6
8.0 Ethnigrwydd a rhywedd ... 9
9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol ... 10
10.0 Camau gweithredu ... 10

## 1.0 Trosolwg

Ar 19 Mawrth 2025, mynychodd aelodau o'r panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys gyfarfod i adolygu detholiad o chwe achos oedolion a chwe achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau â chyllyll a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas ag achosion oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- Cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.
- Yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel amheuon.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf_Carys Morgans _ (enw mewn print) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hap-samplu dyddiedig 19 Mawrth 2025.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: 18.06.2025

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y panel craffu ar ddatrysiad y tu allan i'r llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Darparwyd adborth i swyddogion mewn perthynas ag asesiad y panel o ddefnydd amhriodol o ddatrysiad y tu allan i'r llys.
- Darparwyd adborth i Heddlu Dyfed-Powys, drwy'r cyfarfod strategol newydd ar y pryderon isod:
    - Mae angen awdurdodiad arolygydd ar gyfer troseddau a waethygwyd gan hiliaeth.
    - Hyfforddiant ar sut i gofnodi a dadgofnodi troseddau a waethygwyd gan hiliaeth yn gywir.
    - Rhaid dilyn polisi a rhestr wirio datrysiad y tu allan i'r llys.
    - Sylwadau amhriodol yn cael eu cofnodi mewn adroddiadau.
    - Dull cyson o gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ledled Dyfed Powys
- Mae cyfarfod newydd wedi'i sefydlu yn Heddlu Dyfed-Powys i asesu ac ymateb i ganfyddiadau'r panel ar gyfer achosion oedolion.

## 5.0 Meysydd i'w gwella

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr adolygiad o achosion oedolion.

- Yn achos 3, mynegodd y panel eu pryderon bod y cyhuddiad o arf bygythiol wedi'i ollwng a'i gyfuno â'r cyhuddiad o feddu ar gyffuriau pan ddylai fod wedi cael ei drin ar wahân.

- Nid oedd rhai o'r adroddiadau a ddarparwyd i'r panel yn glir ac roedd gwybodaeth bwysig ar goll.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion

O'r chwe achos oedolion, roedd pump wedi cael eu trin gan ddatrysiad cymunedol oedolion ac un gan weithgaredd dargyfeiriol, addysgol neu ymyrraeth (canlyniad 22).

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 2 |
| Priodol ond gyda pheth amheuon | 1 |
| Amhriodol | 2 |
| Methwyd â dod i gasgliad | 1 |

Manylir ar sylwadau aelodau'r panel isod.

**Achos 1**

Nododd y panel fod y troseddwr honedig wedi ffonio'r heddlu ei hunan ac nad oedd unrhyw fygythiadau wedi'u gwneud i unrhyw un ond i'w hunan. Cydnabuwyd hefyd nad oedd gan y troseddwr honedig unrhyw droseddau na chollfarnau blaenorol ond ei fod yn amlwg yn dioddef o'i iechyd meddwl. Felly, barnwyd bod y defnydd o'r datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 2**

Yn debyg i achos 1, nododd y panel fod y troseddwr honedig wedi ffonio'r heddlu ei hunan ac nad oedd wedi gwneud unrhyw fygythiadau. Cydnabuwyd bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef yn llawn ei fod ym meddiant gwrthrych llafnog a'i fod wedi dioddef o argyfwng iechyd meddwl. Barnodd y panel fod defnyddio'r datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol oherwydd iechyd meddwl y troseddwr honedig a difrifoldeb isel y digwyddiad.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 3**

Nododd y panel eu pryderon bod trosedd meddiant gwrthrych llafnog wedi'i ollwng gan eu bod yn ystyried bod y digwyddiad yn un difrifol, a bod bwriad clir gan y troseddwr honedig. Deallwyd bod yr heddlu wedi methu â threfnu cyfweliad gwirfoddol gyda'r troseddwr honedig ac yn lle cymryd mwy o amser i aildrefnu, penderfynwyd gollwng y drosedd. Nododd y panel hefyd fod gan y troseddwr honedig restr hir o droseddau ac euogfarnau blaenorol a nododd nad oedd unrhyw gyfaddefiad o euogrwydd wedi'i nodi. Oherwydd difrifoldeb y digwyddiad a hanes blaenorol y troseddwr honedig, daeth y panel i'r casgliad bod defnyddio'r datrysiad cymunedol oedolyn yn amhriodol.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

**Achos 4**

Cynhaliwyd trafodaethau helaeth mewn perthynas â'r achos hwn lle cwestiynodd y panel a ddylid bod wedi delio â'r troseddwr honedig fel oedolyn neu fel unigolyn ifanc. Penderfynwyd bod y troseddwr honedig yn llanc ar adeg y digwyddiad ac felly ystyriwyd yr achos mewn perthynas â'r achosion ieuenctid eraill a adolygwyd gan y panel.

**Asesiad y panel: Methwyd â dod i gasgliad**

**Achos 5**

Nododd y panel eu pryderon ynghylch difrifoldeb y digwyddiad a ddigwyddodd mewn parc gwyliau prysur. Trafododd y panel y posibilrwydd o ddisgwyl gweld achos fel hwn yn y llys, er bod yr anhawster o gyflwyno bygythiadau i ladd i'r llys wedi'i gydnabod. Nodwyd hefyd y gallai'r troseddwr honedig fod yn cael trafferth gyda chamddefnyddio sylweddau gan fod y digwyddiad dan sylw wedi'i waethygu gan alcohol yn ogystal â throseddau blaenorol, a oedd yn cynnwys meddwdod. Felly trafodwyd a allai cynllun dargyfeirio gefnogi'r troseddwr honedig gyda hyn. Daeth y panel i'r casgliad, er eu bod yn ystyried bod y datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol, fod rhai amheuon yn parhau.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**


**Achos 6**

Nododd y panel droseddau a chollfarnau blaenorol helaeth y troseddwr honedig, gan gynnwys dedfryd ohiriedig o 18 mis. Cafwyd trafodaeth ynghylch hanes treisgar y troseddwr honedig ac felly barnwyd nad oedd yr datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion troseddau â chyllyll ymhlith oedolion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:





Mae'r panel wedi ystyried amrywiaeth o waerediadau. Yn y graff isod mae cymhariaeth o'r gwarediadau a ystyriwyd o Ebrill 2023 – Mawrth 24 ac Ebrill 2024 – Mawrth 25.


O'r 25 achos oedolion a archwiliwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, aseswyd 44% fel rhai priodol, 24% fel rhai amhriodol, 16% fel rhai priodol gydag amheuon a methodd y panel â dod i gasgliad mewn 16% o achosion.

O'r 32 achos oedolion a archwiliwyd rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, aseswyd 38% fel rhai priodol, 22% fel rhai amhriodol, 38% fel rhai priodol gydag amheuon a methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2% o achosion.


Gellir gweld y newid yn y casgliadau a gyrhaeddwyd dros y ddau gyfnod yn y graff isod:










Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y panel yn sgil hynny yn eu cyfarfodydd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae’r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:




Mae’r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Hunan-asesiad y sawl dan amheuaeth | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 3 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 4 |
| Gwyn – Gwyddelig | 0 | 0 |
| Gwyn – Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0 |
| Anhysbys | 3 | 2 |

Mewn un o'r achosion a adolygwyd, ni chofnodwyd ethnigrwydd. Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel y byddent yn hoffi canolbwyntio ar gyhuddiadau'n ymwneud â difrod troseddol a threfn gyhoeddus yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau gweithredu

| Dyddiad y cyfarfod | Rhif y cam gweithredu | Crynodeb | Unigolyn cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 19 Mawrth 2025 | OOCR – 157 | Adroddiadau Biwro'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar gyfer achos oedolyn 4 i'w dosbarthu i'r panel. | SCHTH |